***Statws*** *This is the original version (as it was originally enacted).*

# ATODLEN 1

## ADOLYGIADAU CYCHWYNNOL O DREFNIADAU ETHOLIADOL ETC.

### *Adolygiadau dilynol gan y Comisiwn pan wneir rheoliadau o dan baragraff 9(1)(b) neu 10(2)*

12 (1) Pan fo Gweinidogion Cymru yn gwneud rheoliadau o dan baragraff 9(1)(b) neu 10(2) rhaid i'r Comisiwn—

(a) os yw'r rheoliadau yn deillio o gyfarwyddyd o dan adran 11 i gynnal adolygiad cychwynnol o brif ardal, gydymffurfio ag is-baragraff (2);

(b) os yw'r rheoliadau yn deillio o gyfarwyddyd o dan adran 138 i gynnal adolygiad cychwynnol o'r brif ardal gyfan neu ran ohoni, gydymffurfio ag is-baragraff (3).

(2) Rhaid i'r Comisiwn gynnal adolygiad o dan adran 29(1) o Ddeddf 2013 o'r trefniadau etholiadol ar gyfer y brif ardal—

(a) cyn gynted â phosibl ar ôl diwrnod yr etholiad cyffredin cyntaf ar gyfer cynghorwyr i'r prif gyngor ar gyfer yr ardal honno y cymhwysir y system bleidleisio newydd ynddi, a

(b) pa un bynnag, cyn diwrnod yr etholiad cyffredin nesaf.

(3) Rhaid i'r Comisiwn gynnal adolygiad o dan adran 29(1) o Ddeddf 2013 o'r trefniadau etholiadol ar gyfer y brif ardal berthnasol—

(a) cyn gynted â phosibl ar ôl diwrnod yr etholiad cyffredin cyntaf ar gyfer cynghorwyr i'r prif gyngor ar gyfer yr ardal honno wedi i'r rheoliadau ddod i rym, a

(b) pa un bynnag, cyn diwrnod yr etholiad cyffredin nesaf.

(4) Yn y paragraff hwn—

(a) yn is-baragraff (2), ystyr "y system bleidleisio newydd" yw'r system bleidleisio sy'n gymwys i ethol cynghorwyr i'r cyngor o ganlyniad i arfer y pŵer i newid y system bleidleisio o dan adran 8;

(b) yn is-baragraff (3), ystyr "y brif ardal berthnasol" yw'r brif ardal yr oedd hi, neu unrhyw ran ohoni, yr ardal sy'n cael ei hadolygu.